# Rheolwyr calon siambr ddeuol ar gyfer bradycardia symptomatig o ganlyniad i syndrom sinws sâl heb rwystr atriofentrigol (adolygiad rhannol o arfarniad technoleg 88)

26 Tachwedd 2014

## Beth mae NICE wedi'i ddweud?

Argymhellir rheolwyr calon siambr ddeuol fel triniaeth bosibl ar gyfer pobl â bradycardia symptomatig o ganlyniad i syndrom sinws sâl heb rwystr atriofentrigol.

### *Beth mae hyn yn ei olygu i mi?*

Os oes gennych fradycardia symptomatig o ganlyniad i syndrom sinws sâl, heb rwystr atriofentrigol, a bod eich meddyg o'r farn mai rheolydd calon siambr ddeuol yw'r driniaeth gywir i chi, dylech allu cael y driniaeth ar y GIG.

## Pam bod NICE wedi dweud hyn?

Argymhellwyd rheolwyr calon siambr ddeuol am eu bod yn gweithio'n well na thriniaethau eraill sydd ar gael ar y GIG. Er bod rheolwyr calon siambr ddeuol yn costio mwy na rheolwyr calon siambr unigol, cafodd hyn ei gyfiawnhau gan y manteision clinigol cysylltiedig.

Mae NICE yn edrych ar lwyddiant y triniaethau mewn perthynas â'u cost o gymharu â thriniaethau eraill sydd ar gael ar y GIG.

## Y cyflwr a'r driniaeth

Pan fydd y galon yn curo ar gyfradd arafach nag arfer, gelwir hyn yn fradycardia. Mae'n bosibl na fydd hyn yn achosi unrhyw symptomau, ond pan fydd symptomau yn digwydd, maent yn cynnwys llewygu, syrthio, pendro, dryswch, poen yn y frest ac anawsterau anadlu. Pan fydd bradycardia yn digwydd gyda'r symptomau hyn, fe'i gelwir yn fradycardia symptomatig.

Mae ffactorau cyffredin sy'n achosi bradycardia symptomatig yn cynnwys syndrom sinws sâl a rhwystr atriofentrigol. Syndrom sinws sâl yw'r enw a roddir ar grŵp o gyflyrau rhythm y galon a gaiff eu hachosi gan broblem gyda rheolydd naturiol y galon (y nod sinws), sy'n golygu ei bod yn methu â chynhyrchu'r ysgogiadau trydanol sydd eu hangen ar y galon i guro ar y gyfradd arferol. Mae rhwystr atriofentrigol yn gyflwr lle y caiff ysgogiadau trydanol o'r nod sinws i siambrau isaf y galon eu harafu neu eu hatal. Gall syndrom sinws sâl ddigwydd gyda rhwystr atriofentrigol neu hebddo. Dim ond i bobl â syndrom sinws sâl lle nad oes unrhyw dystiolaeth o rwystr atriofentrigol y mae'r canllawiau hyn yn berthnasol (i gael argymhellion ar syndrom sinws sâl â rhwystr atriofentrigol, neu rwystr atriofentrigol ar ei ben ei hun, gweler arfarniad technoleg NICE 88). Gellir trin bradycardia symptomatig a achosir gan syndrom sinws sâl heb rwystr atriofentrigol gan ddefnyddio rheolydd calon.

Dyfais fach a gaiff ei gosod o dan y croen drwy driniaeth lawfeddygol fach yw rheolydd calon. Mae gwifrau bach iawn yn ei chysylltu ag arwyneb y galon. Os yw curiad y galon yn rhy araf, neu os na chynhyrchir ysgogiad trydanol, gall y rheolydd calon ei ganfod. Bydd wedyn yn cynhyrchu ysgogiad trydanol i ddechrau neu reoli curiad y galon.

Mae gan reolwyr calon naill ai siambr unigol neu siambr ddeuol, gan ddibynnu ar y ffordd y cânt eu cysylltu â'r galon. Caiff rheolwyr calon siambr unigol eu cysylltu â siambr uchaf y galon neu siambr isaf y galon yn unig. Caiff rheolwyr siambr ddeuol eu cysylltu â siambr uchaf a siambr isaf y galon.

Gall NHS Choices (www.nhs.uk) fod yn fan da i gael gwybod mwy

## Ffynonellau cyngor a chymorth

- Action Heart, 01384 292233, www.actionheart.com
- Cynghrair Arythmia, 01789 450 787, www.arrhythmiaalliance.org.uk
- Cymdeithas Cleifion Cardiaidd Prydain, 01223 845845, www.bcpa.co.uk
- South Asian Health Foundation, info@sahf.org.uk, www.sahf.org.uk

- STARS – Syncope Trust and Reflex anoxic Seizures, 01789 867 503, www.stars.org.uk

Nid yw NICE yn gyfrifol am ansawdd na chywirdeb unrhyw wybodaeth neu gyngor a roddir gan y sefydliadau hyn.

ISBN: 978-1-4731-0924-7